

**CYFLWYNIAD**

Planhigyn lluosflwydd yw asbaragws (*Asparagus officinalis*) a dyfir am ei sbrigliau ifainc suddlon. Mae planhigfeydd asbaragws yn cymryd tair blynedd i sefydlu cyn y gellir cynaeafu cnwd, ond pan fydd yn cael ei gynhyrchu, mae'r coesyntau asbaragws yn mynd am bris uchel.

**SEFYDLU CNWD NEWYDD****Deunydd plannu**

Gellir sefydlu asbaragws o goronau a dyfwyd mewn caeau neu o drawsblaniadau a dyfwyd o fodiwlau. Bydd y naill dull yn rhoi canlyniadau da, ond fel rheol, bydd defnyddio coronau yn rhoi planhigyn mwy, a gall olygu y cynhyrchir cnwd gwerthadwy flwyddyn yn gynt na fyddai'r achos gyda thrawsblaniadau.

Mae angen archebu modiwlau gan gyflenwyr ym mis Ionawr. Golyga hyn y caiff yr had ei hau mewn gwres a dylai'r planhigyn fod yn barod i fynd allan yn niwedd Ebrill. Mae hyn yn ei alluogi i sefydlu'n gyflym ac yn gyfartal a dylai'r cynyddio ddechrau ym mlwyddyn 2-3.

Gellir prynu coronau asbaragws heb rhag-archebu. Fodd bynnag, mae'n well archebu'n gynnar er mwyn osgoi cael eich siomi o ran y math a'r nifer. Yr Iseldiroedd yw'r brif ffynhonnell deunydd plannu.

**Dull plannu**

Caiff y cnwd ei blannu naill ai ar wely hadau gwastad neu mewn cwys 50mm. Nid yw'r trefniant gofodol yn bwysig cyhyd ag y caiff 22,000 o blanhigion eu plannu i'r hectar (neu 2.2 planhigyn fesul m<sup>2</sup>). Fel rheol, bydd olion olwynion tractor yn diffinio'r gofod.

Caiff pridd ei rychu o amgylch y planhigyn yn ystod y tymor cwsg i gael bôn y goron tuag 20cm (8") o ddyfnder yn y pridd ar ddiwedd y tymor cyntaf neu'r ail dymor.

**Mathau**

Ffafir y math Geynlim ar hyn o bryd, ond mae rhai tyfwyr yn edrych ar fathau Americanaidd gyda'r Jersey Giant yn fwyaf poblogaidd. Mae mathau eraill sydd o ddiwedd yn cynnwys Cito a Dariana.

Os arbrofir mathau newydd, mae'n synhwyrol pennu rhan cymharol fychan yn unig ar gyfer hyn, oherwydd ar ôl eu plannu, ni ellir defnyddio'r caeau am sawl blwyddyn.

**Safle plannu**

Gellir tyfu asbaragws yn y rhan fwyaf o bridd, yn cynnwys lom clai trymach, ond mae pridd tywodlyd yn ddelfrydol. Oherwydd y bydd y cnwd yn y tir am hyd at ddeng mlynedd, mae'n hanfodol y paratoir y safle'n drwyadl. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad oes chwyn lluosflwydd yn yr ardal, yn arbennig ysgall ymledol a marchwellt. Y mae hefyd yn werth chweil ychwanegu deunydd organig at y pridd cyn rhoi'r cnwd i mewn.

**Gwrteithio**

Yn y blynyddoedd cynnar, defnyddir gwrtaith ar hyd y rhesi yn unig (i atal gwastraff) ac mae wedi'i seilio ar:

Nitrogen 75 kg/ha

Ffosffad 125 kg/ha

Potash 200kg/ha

Yn ymarferol, Caiff y cnwd ychydig o fwyd, ac yn aml, mewn cysylltiad â datblygiad y cnwd.

Dangoswyd bod gan asbaragws ymateb economaidd i **halen** a ddefnyddir am 1.0 tonnell/hectar, ond nid yw'n hollol hanfodol a thyfir cynydu hebdo. Gwelir y fantais o ddefnyddio halen yn nifer uwch y coesyntau mwy a gynhyrchir ac oes estynedig i'r blanhigfa. Ni ddylid gadael i welyau asbaragws fynd yn asidig felly mae angen gwiriadau rheolaidd a rhaid defnyddio **calch** cyn i'r pH ostwng. Dylid cadw gwelyau ar pH 6.5 neu fwy.

**Rheoli chwyn**

Mae'n bosibl defnyddio dulliau cemegol o reoli chwyn ar ôl plannu, ond gellid defnyddio polythen du hefyd a bydd yn fwy priodol ar gyfer tyfwyr organig.

## Plâu ac clefydau

Nid oes llawer o blâu o asbaragws, felly NID oes chwistrellu plaladdwyr rheolaidd. Efallai y bydd chwilod asbaragws yn ymddangos dros y blynyddoedd, a bydd angen eu trin, ac mae ymosodiadau ffwngaudd achlysurol hefyd.

## BLYNYDDOEDD DILYNOL

### Cynnal a Chadw

Y cylch blynyddol yw cynaeafu o ddiwedd Ebrill tan 21 Mehefin. Galluogir i'r brig (neu'r bower) ddatblygu wedyn ac adeiladu adnoddau wrth gefn y planhigyn ar gyfer y tymor nesaf. Os torrir y brig ar ôl y dyddiad hwn, bydd y planhigyn yn aml yn dirywio. Mae'r brig yn marw i lawr gyda rhewogydd difrifol cyntaf yr hydref. Caiff hwn ei glirio wedyn ac mae'r cnwd yn gaeafu o dan y ddaear.

### Gwrteithio

Mae angen dresins o N, P a K ar gyfer cynnal a chadw.

## CYNAEFU A MARCHNATA

Rhaid torri coesynnau asbaragws ychydig o dan y tir. Mewn tywydd poeth, bydd raid torri'r coesynnau o'r cnwd bob diwrnod. Mewn amodau oerach, bydd torri dwywaith yr wythnos yn ddigon. Rhaid torri'r coesyn tra bo'r blaguryn apigol yn dal yn dynn

Yn gyffredinol, caiff y cnwd ei dorri a'i roi mewn cynhwysydd plastig a'i gludo oddi ar y cae i'w ddioli a'i raddio. Cyn gynted ag sy'n bosibl, rhaid oeri'r cnwd i lawr i 2°C-3°C i gynorthwyo ag oes silff. Rhaid gwarchod y coesynnau hefyd rhag sychu allan. Os yw'r tywydd yn boeth, gellir dal y cnwd am tua 10 niwrnod i gydbwyso'r cyflenwad, ond efallai y bydd cwsmeriaid craff yn sylwi ar y gostyngiad canlyniadol mewn ansawdd.

I gyflwyno'r cnwd i gwsmeriaid, caiff ei raddio fel rheol ar gyfer maint, a gwerthir y mwyaf fel *jumbo*, y rhai canolig fel *premium* a'r rhai bychain fel *sprue*. Mae rhai ffermydd hefyd yn cynnig graddfa cawl y gall unrhyw beth arall fynd i mewn iddo. Mae rhai ffermydd yn rhoi'r coesynnau mewn llawes polythen ac eraill yn eu rhoi mewn bwndeli o tua 0.5kg gyda band lastig i'w ddiogelu.

## DATA CYLLIDOL

Mae'r tabl canlynol yn dangos costau mynegol o gynhyrchiad a refeniw fesul hectar. Maent wedi eu seilio ar weithrediad graddfa canolig (1 i 2 hectar) ac yn cymryd fod y cnwd wedi'i sefydlu o goronau ac y defnyddir contractwyr ar gyfer rheoli tasgau.

### Cynhyrchu asbaragws - costau a refeniw fesul hectar

	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3 ymlaen	Elw blynyddol ar gyfartaledd dros 5 mlynedd
Chwistrellu chwyn gyda Glyffosad	£30			
Aredig	£37			
Og pŵer	£32			
Gwrtaith @ £120 / tunnell	£60	£60	£120	
Planhigion (coronau) 22,000 @ £165 / 1,000	£3,630			
Plannu at 2p/plant	£500			
Chwynladdwr / rheoli chwyn	£120	£150	£150	
Torri'r brig		£22	£22	
Priddo		£35	£35	
Llafur cynaeafu (784awr @ £5.00/awr)			£3,920	
<b>Cyfanswm y costau</b>	<b>£4,409</b>	<b>£267</b>	<b>£4,247</b>	
<b>Refeniw 3.75 tunnell / ha</b>				
Gwerthu am @ £5.50/kg			£20,625	
Neu drwy gyfanwerthu @ £2,575 / tunnell			£9,565	
<b>Elw os gwerthir drwy adwerthu</b>	<b>-£4,409</b>	<b>-£267</b>	<b>£16,378</b>	<b>£8,891</b>
<b>Elw os gwerthir drwy gyfanwerthu</b>	<b>-£4,409</b>	<b>-£267</b>	<b>£5,318</b>	<b>£2,255</b>

Yn ymarferol, dylai planhigfa asbaragws bara mwy na pum mlynedd – po hwyaf y mae'n para, gorau oll fydd maint yr elw, cyhyd ag y cedwir ffrwythlondeb y pridd a chnwd y cynnyrch.



Chwilen asbaragws (*Crioceris asparagi*)